



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742
Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Mehafin 4ydd, 2013

Presennol

*Robert Gorman, Sara Fflur Griffiths,
Dylan Skym, Gwenllian Thomas,
Rhianedd Owen, Sara ap Robert John,
Erin Davies, Elen Llywelyn Evans,
Mrs Williams, Mrs Llwyd*

Absennol

Llyr Eirug, Dylan James-Williams

Agenda

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

Croesawodd Robert Gorman, Cadeirydd y Cyngor Ysgol, bawb i'r cyfarfod.

2. Trafod materion sy'n codi yn y dosbarthiadau:

Gofynnodd Robert os oedd unrhyw faterion wedi codi ymhlith ein cyd-ddisgyblion yn y dosbarthiadau ers y cyfarfod diwethaf.

Trafodwyd y canlynol:

- **Lolis rhew** – o ganlyniad i'r tywydd braf diweddar, mae llawer o ddisgyblion yr ysgol yn awyddus i blant Bl.6 wneud a gwerthu lolis rhew eto eleni. Esboniodd Mrs Llwyd taw un o dasgau Pecyn Pontio Bl.6/7 oedd gwneud y lolis llynedd, ac nad yw hon yn un o'r tasgau eleni yn anffodus. Trafodwyd hefyd y ffaith y byddai hi'n anodd ac yn gostus iawn gwneud digon o lolis er mwyn i 400 o ddisgyblion yr ysgol fedru prynu un yr un (tua 80 gafodd eu gwneud er mwyn eu gwerthu y llynedd, ac fe gollodd llawer o ddisgyblion allan ar y cyfle i'w prynu nhw). Penderfynwyd y byddai pawb yn mynd yn ôl i'w dosbarthiadau er mwyn gofyn am syniadau o bethau mwy ymarferol a allai gael eu gwneud a'u gwerthu (e.e. smwddis ffrwythau).

- **Parti gadael Bl.6** – dywedodd Gwenllian fod nifer o ddisgyblion Bl.6 yn awyddus i gael parti ffarwelio wrth iddyn nhw adael yr ysgol ar ddiwedd tymor yr haf. Bydd Gwenllian a Sara yn holi Mr Williams am hyn.

- **Ardal Aros am Ffrind** – dywedodd Erin fod llawr o blant yn holi os oes modd cael sedd yn yr ardal 'Aros am Ffrind' ar yr iard, gan nad oes lle i eistedd yno ar hyn o bryd gan fod y fainc wedi cael ei symud. Cytunodd pawb fod hyn yn syniad da – bydd Robert yn rhoi cais swyddogol i Mr Williams.

- **Toliedau a threfniadau newid y pafiliwn** – mae nifer ohonom yn cytuno y byddai hi'n syniad da medru defnyddio'r toiledau yn y pafiliwn yn ystod amser chwarae, gan nad oes digon o doiledau yn agos i'r cae. Trafodwyd y ffaith fod angen gwella cyflwr y toiledau ac y byddai angen i'r pafiliwn gael ei ddatgloi yn ystod amser chwarae er mwyn i hyn fedru digwydd. Hefyd, mynegodd aelodau Bl.5 a 6 o'r Cyngor Ysgol

bryder ynglŷn â threfniadau newid yn y pafiliwn cyn y wers Addysg Gorfforol ar brynhawn dydd Gwener, gan nad oes digon o le i bawb o Fl.5 a 6 newid yno ar yr un pryd. Byddwn ni'n rhoi gwahoddiad i Mr Williams ddod i'r cyfarfod nesaf er mwyn trafod hyn gydag ef.

- **Yr ardd natur** – cytunwyd fod angen annog pob dosbarth drwy'r ysgol i wneud defnydd da o'r ardd natur fel ystafell ddosbarth allanol yn ystod tywydd braf, a byddwn yn cydweithio gyda'r Pwyllgor Eco er mwyn ceisio sicrhau fod hyn yn digwydd.

3. Bocs Syniadau

Edrychodd Robert a Dylan yn y Bocs Syniadau - doedd dim awgrymiadau yno y mis hwn.

Diolchodd Robert i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod. Dywedodd y byddwn yn cael cyfarfod arall yr wythnos nesaf gan nad oedd digon o amser i drafod popeth yn y cyfarfod hwn.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Mehefin 11eg 2013

Cofnodion gan Sara a Gwenllian (Ysgrifenyddes ac Is-Gadeiryddes).